

PWYLLGOR CYNLLUNIO

Cofnodion cyfarfod Hybrid a gynhaliwyd ar 19 Mawrth, 2026.

Mae'r Agenda ar [gael yma](#).

Mae recordiad y cyfarfod ar [gael yma](#).

Yn bresennol: Y Cynghorydd N.C. Thomas (Cadeirydd); Y Cynghorydd M.R. Wilson (Is-gadeirydd); Y Cynghorwyr: J. Aviet, G. Bruce, I.R. Buckley, C.A. Cave, J.E. Charles, C.M. Cowpe, P. Drake, W. Gilligan, Dr. I.J. Johnson, H.M. Payne, I.A.N. Perry, C. Stallard ac E. Williams.

Hefyd yn bresennol: Y Cynghorwyr A. Asbrey a G.D.D. Carroll.

Siaradodd y Cynghorydd G.D.D. Carroll mewn perthynas ag Eitem Agenda Rhif 7.
(ii) 2025/00004/TREE – Coed y Gronfa Ddŵr, rhwng Lewis Road, Llandough a Phen y Turnpike fel yr Aelod Ward lleol.

742 CYHOEDDIAD –

Cyn cychwyn busnes y Pwyllgor, darllenodd y Swyddog Gwasanaethau Democrataidd a Chraffu y datganiad a ganlyn: "A gaf i atgoffa pawb sy'n bresennol y bydd y cyfarfod yn cael ei ffrydio'n fyw yn ogystal â'i recordio trwy'r rhyngwyd ac mae'r recordiad hwn wedi'i archifo i'w weld yn y dyfodol."

743 YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB –

Derbyniwyd y rhain gan y Cynghorydd N.P. Hodges.

744 COFNODION –

ARGYMHELLWYD – CYMERADWYO cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 12 Chwefror, 2026 fel cofnod cywir.

745 DATGANIADAU BUDDIANT –

Hysbysodd y Cynghorydd M.R. Wilson, yr Is-gadeirydd, y Pwyllgor ei fod wedi ceisio cyngor gan Swyddog Monitro'r Cyngor ynghylch cais cynllunio 2025/01008/RG3 Tir i'r Dwyrain o Dunraven Close, Y Bont-faen (Ysgol newydd arfaethedig – Ysgol lolo Morganwg). Roedd hyn oherwydd bod ei wraig yn Aelod Cabinet y Cyngor dros Addysg, y Celfyddydau a'r Iaith Gymraeg. Roedd y Swyddog Monitro wedi cynghori nad oedd angen i'r Cynghorydd Wilson ddatgan buddiant personol na rhagfarnlyd ac felly y gallai aros yn y cyfarfod, cymryd rhan a phleidleisio pan fyddai'r eitem agenda yn cael ei chyflwyno a'i thrafod gan y Pwyllgor.

Cynghorodd y Cynghorydd Dr. I.J. Johnson y Pwyllgor, mewn perthynas â chais cynllunio 2025/01008/RG3 Tir i'r Dwyrain o Dunraven Close, Y Bont-faen (Ysgol newydd arfaethedig – Ysgol lolo Morganwg), ei fod wedi gwneud sawl sylw ynghylch yr ysgol dan sylw yn y gorffennol ac wedi codi cwestiynau fel rhan o fusnes y Cyngor o'r blaen. Ond mewn perthynas â'r cais cynllunio presennol ar gyfer yr ysgol, byddai'n cadw meddwl agored arno ac felly nid oedd ganddo unrhyw fuddiant personol na rhagfarnllyd yn hyn o beth.

746 CEISIADAU RHEOLI ADEILADAU A MATERION RHEOLI ADEILADAU ERAILL A BENDERFYNWYD GAN BENNAETH ADFYWIO A CHYNLLUNIO DAN BWERAU DIRPRWYEDIG (PDC) –

PENDERFYNWYD –

- (1) Y bod y ceisiadau rheoliadau adeiladu a basiwyd, fel y'u rhestrir yn Adran (a) o'r adroddiad, yn cael eu nodi.
- (2) Y bod y ceisiadau adeiladu a wrthodwyd, fel y'u rhestrir yn Adran (b) o'r adroddiad, yn cael eu nodi.
- (3) Y bod cyflwyno Hysbysiadau o dan Reoliadau Adeiladu (Arolygwyr Cymeradwyedig Ac ati) 2000, fel y'u rhestrir yn Adran (c) o'r adroddiad, yn cael eu nodi.
- (4) Y bod Adran 32 o Ddeddf Adeiladu, 1984, yn cael ei gweithredu er mwyn cyflwyno hysbysiadau mewn perthynas â chynlluniau sydd yn dair blwydd oed neu fwy a bod y cyflwyniad o'r hysbysiadau hynny, fel y'u rhestrir yn Adran (d) o'r adroddiad, yn cael ei nodi.

747 CEISIADAU CYNLLUNIO A BENDERFYNWYD GAN BENNAETH DATBLYGU CYNALIADWY DAN BWERAU DIRPRWYEDIG (PDC) –

PENDERFYNWYD – Y BOD Y ceisiadau fel yr amlinellir yn yr adroddiad, ar dudalennau 15 i 30, o dan y pwerau dirprwyedig uchod, yn cael eu nodi.

748 APELIADAU (PDC) –

PENDERFYNWYD –

- (1) Y dylid yr Apeliadau Cynllunio a dderbyniwyd ar ôl i'r Cyngor wrthod rhoi caniatâd cynllunio, fel y nodir yn Adran (a) yr adroddiad, yn cael eu nodi.
- (2) Y dylid nodi nad oedd unrhyw Apelau Gorfodi wedi'u derbyn, fel y manylir yn Adran (b) yr adroddiad.

(3) Y dylid y Penderfyniadau Apeliadau Cynllunio, fel y manylir yn Adran (c) yr adroddiad, yn cael eu nodi.

(4) Y dylid y Penderfyniadau Apelau Gorfodi, fel y manylir yn Adran (d) yr adroddiad, yn cael eu nodi.

(5) Y dylid yr ystadegau sy'n ymwneud ag apeliadau ar gyfer y cyfnod Ebrill 2025 – Mawrth 2026, fel y manylir yn Adran (e) yr adroddiad, yn cael eu nodi.

749 COED (PDC) –

(i) Rhestr Ddirprwyedig –

PENDERFYNWYD – Nodi'r ceisiadau fel yr amlinellwyd yn yr adroddiad, ar dudalennau 40 a 41, fel y'u pennwyd gan y Pennaeth Datblygu Cynaliadwy dan bwerau dirprwyedig.

(ii) 2025/00004/TREE – Coed y Gronfa Ddŵr, rhwng Ffordd Lewis, Llandochau a Ffordd Pen y Turnpike –

Cais i gymhwyso Gorchymyn Diogelu Coed(GDC) i'r ardal o goetir rhwng Lewis Street, Llandochau a Pen y Turnpike Road, a elwir hefyd yn Reservoir Wood.

Roedd y safle yn gysylltiedig â Reservoir Wood; coetir llydanddail wedi'i leoli rhwng Pen-y-Tyrpeg, Heol Lecwydd ac Ysbyty Llandochau. Roedd y safle wedi'i leoli o fewn Ardal Tirwedd Arbennig Basn Cwrt-yr-Ala a pharth diogelu mwynau categori 2 ar gyfer calchfaen ac roedd hefyd wedi'i nodi fel Safle o Bwysigrwydd Cadwraeth Natur (SoBCN) yng Nghynllun Datblygu Lleol Bro Morgannwg Mabwysiedig 2011 – 2026.

Gwnaed cais i'r Cyngor gan un o drigolion Lewis Road i ystyried a fyddai'r coetir yn addas ar gyfer GDC. Nododd y cais, oherwydd statws y coetiroedd fel Coetir Hynafol wedi'i Adfer a phresenoldeb nifer o goed a ystyriwyd yn ffurf ddymunol, yn ogystal â gwerth ecolegol ac amwynder y safle, roedd y preswlydd o'r farn bod y safle yn addas ar gyfer GDC.

Ymwelodd swyddogion o adrannau Cynllunio a Gwasanaethau Cymdogaeth y Cyngor â'r safle a daeth i'r casgliad, oherwydd gwerth amwynder y coetir i drigolion cyfagos, ei gyfraniad at gymeriad y CLG, gwelededd y coetir o nifer o ardaloedd hygyrch i'r cyhoedd, a'i statws iach fel coetir adfywiol naturiol, byddai GDC yn briodol ac yn angenrheidiol. Ar y sail hon cyflwynwyd GDC (Rhif 4 o 2025) ar 23 Rhagfyr, 2025.

Anfonwyd llythyrau at berchnogion tir a chymdogion y safle, a gafodd 28 diwrnod i roi sylwadau ar y GDC. Derbyniodd yr awdurdod cynllunio 15 llythyr o gefnogaeth gan drigolion Llandochau ac un llythyr o wrthwynebiad gan dirfeddiannwr rhan o'r coetir. Er y cafwyd gwrthwynebiad yn erbyn y GDC, ystyriwyd nad oedd yr un o'r materion a godwyd gan y gwrthwynebydd yn rhoi digon o gyfiawnhad i ddiystyru'r rhesymau o blaid cadarnhau'r GDC. Felly, argymhellwyd y dylid cadarnhau'r GDC heb ei addasu.

PENDERFYNWYD – BOD y Gorchymyn Diogelu Coedyn cael ei gadarnhau heb ei addasu.

Rheswm dros y penderfyniad

Mae'r penderfyniad i argymhell cadarnhau GDC wedi'i wneud yn unol ag Adran 198 Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 (fel y'i diwygiwyd), sy'n rhoi pŵer i'r awdurdod cynllunio lleol wneud darpariaeth ar gyfer cadw coed neu goetiroedd.

O ystyried dyletswyddau'r Cyngor o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010, nid oedd gan y datblygiad arfaethedig unrhyw oblygiadau sylweddol ar gyfer, neu effaith ar, unigolion oedd yn rhannu nodwedd warchoddedig.

Ystyriwyd bod y penderfyniad yn cydymffurfio ag amcanion lles y Cyngor a'r egwyddor datblygu cynaliadwy yn unol â gofynion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.

750 CEISIADAU CYNLLUNIO (PDC) –

PENDERFYNWYD – Y BOD, yn unol â'r pwerau a ddirprwywyd i'r Pwyllgor, y dylid penderfynu ar y ceisiadau canlynol fel y nodir a chymryd unrhyw gamau angenrheidiol eraill.

2025/01008/RG3

Derbyniwyd ar 13 Ionawr 2026

YMGEISYDD: Kelly Williams Ffordd y Mileniwm, Y Barri, CF63 4RT

ASIANT: Mr Liam Hopkins Westgate House, 11 Stryd Womanby, Caerdydd, CF10 1AF

Tir i'r dwyrain o Dunraven Close, Y Bont-faen (Ysgol newydd arfaethedig – Ysgol lolo Morganwg)

Ysgol newydd arfaethedig – Ysgol lolo Morganwg.

Roedd yn ofynnol i'r Pwyllgor Cynllunio benderfynu ar y cais o dan gynllun dirprwyo cymeradwy'r Cyngor oherwydd bod y cais o raddfa nad oedd wedi'i chynnwys yn y cynllun dirprwyo.

Yn dilyn trafodaethau'r Pwyllgor ar y cais, penderfynwyd y dylid cynnal Pleidlais Gofnodedig ar y cais ac argymhellion y swyddogion, a'r canlyniad oedd fel a ganlyn:

| | O Blaid | Yn Erbyn | Ymatal |
|---------------|---------|----------|--------|
| Julie Aviet | √ | | |
| Gillian Bruce | √ | | |

| | O Blaid | Yn Erbyn | Ymatal |
|-----------------|-----------|----------|----------|
| Ian Buckley | √ | | |
| Christine Cave | √ | | |
| Janice Charles | √ | | |
| Marianne Cowpe | √ | | |
| Pamela Drake | √ | | |
| Wendy Gilligan | √ | | |
| Ian Johnson | √ | | |
| Helen Payne | √ | | |
| Ian Perry | | √ | |
| Carys Stallard | √ | | |
| Neil Thomas | √ | | |
| Eddie Williams | √ | | |
| Mark Wilson | √ | | |
| Cyfanswm | 14 | 1 | 0 |

Felly, cymeradwywyd y cais yn amodol ar amodau diwygiedig.

Wedi hynny, cytunodd y Pwyllgor

ROI caniatâd cynllunio yn amodol ar yr amod(au) canlynol:

1. Bydd y datblygiad yn dechrau heb fod yn hwyrach na phum mlynedd o ddyddiad y penderfyniad hwn.

Rheswm:

Cydymffurfio â gofynion Adran 91 o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990.

2. Bydd y datblygiad yn cael ei wneud yn unol â'r cynlluniau a'r dogfennau cymeradwy canlynol:

YIM-HLM-00-00-D-L-000010 P03 Cynllunio Cynllun Lleoliad y Safle
Yim Hlm 00 00 D L 008001 Adrannau Ledled y Safle

Yim HLM 01 RF D A 006200 Cynllun To Lliw P09
 Yim HLM 01 00 D A 006000 Cynllun Llawr Gwaelod Lliw P10
 Yim HLM 01 01 D 1 006100 Cynllun Llawr Cyntaf Lliw P10
 Yim Hlm 01 Zz D A 006300 Taflen Gweddau Lliw 1 S3 P06
 Yim Hlm 01 Zz D A 006310 Taflen Gweddau Lliw 2 S3 P06
 Yim Hlm 01 Zz D A 006400 Adrannau Adeiladu Lliw S3 P06
 Yim Mcp Zz Xx D E 290001 Cynllun Gwasanaethau Allanol Trydanol
 Arfaethedig
 Yim Stn 00 Xx D C 110000 P09 Taflen Strategaeth Peirianeg 1
 Yim Stn 00 Xx D C 110100 P09 Taflen Strategaeth Peirianeg 2
 Yim Stn 00 Xx D C 210100 P04 Adrannau Arfaethedig a Phresennol
 YIM-HLM-00-00-D-L-001000 P04 Cynllun Safle Presennol
 YIM-HLM-00-00-D-L-004001P05 Cynllun Trefniant Cyffredinol Tirlunio -
 Cynllunio
 YIM-HLM-00-00-D-L-008001 P04 Adrannau Ledled y Safle - Cynllunio
 YIM-HLM-00-00-D-L-250011 P04 Cynllun Trin Ffiniau - Cynllunio
 YIM-HLM-00-D-L-300011 P03 Cynllun Strategaeth Tirlunio Caled - Cynllunio
 YIM-HLM-00-00-D-L-450011 P05 Cynllun Strategaeth Tirlunio Meddal -
 Cynllunio
 YIM-HLM-00-00-L-L-453010 P03 Atodlen Plannu
 YIM-STN-00-XX-D-C-130000 P06 Olrhain Cerbydau - Sbwriel, Bysus Mini a
 Bysus
 YIM-STN-00-XX-D-C-130200 P03 Olrhain Cerbydau - Tendr Tân
 YIM-HLM-ZZ-ZZ-R-A-902300 P0 5 Datganiad Dylunio a Mynediad
 333701534-STN-XX-XX-RP-WENV-0001-P02 Asesiad o ganlyniadau
 llifogydd
 YIM-MCP-ZZ-XX-D-E-290000 P05 Cynllun Gwasanaethau Allanol Trydanol
 Arfaethedig (goleuadau)
 Strategaeth Lliniaru Ymlusgiaid - Ysgol Iolo v1.0 (1)
 Arfarniad Ecolegol Cychwynnol
 Asesiad o Effaith Sŵn AChA
 Strategaeth Dylunio Carbon Isel
 Datganiad Trafnidiaeth
 Asesiad Wrth Ddesg o'r Amgylchedd Hanesyddol
 Lleoliadau golygfa ffotograffau (fel y cyfeirir ato yn Safbwynt 21 DDM)
 Adroddiad YCC Ysgol Iolo
 Datganiad Seilwaith Gwyrdd
 Datganiad Cynllunio
 Cam 1 Astudiaeth Bwrdd Gwaith Amodau Daear
 Adroddiad Geoamgylcheddol a Geotechnegol Haen 2 wedi'i olygu
 Logisteg a Chynlluniau Graddedig 01 09 25
 R01-SM-SG-Datganiad Trafnidiaeth (251201)
 R02-SG-Cynllun Teithio Ysgol (251201)
 R03-SG-Cynllun Rheoli Parcio Ceir (251208)
 Adroddiad Dylunio Acwstig
 Asesiad o Effaith Sŵn Gosodiad
 Cynllun Dyluniad Cwrt Adeiladu Safle
 FO01-CON-64 Fersiwn 1.1 Cynllun Rheoli Amgylcheddol (CRhA)
 2024-5454-TR05 A - Bws Moethus VSPA 15.0m
 2024-5454-TR06 A - Bws Moethus VSPA 15.0m

N01-SM-Ymateb Trafnidiaeth i Sylwadau Priffyrdd (260112)
 YIM-STN-00-XX-D-C-300000 - Taflen Cynllun Draenio 1
 YIM-STN-00-XX-D-C-300100 - Taflen Cynllun Draenio 2
 Cynllun Rheoli Traffig Adeiladu.

Rheswm:

Er mwyn osgoi amheuon ynglŷn â'r datblygiad cymeradwy ac i gyd-fynd â Chylchlythyr 016:2014 ar Y Defnydd o Amodau Cynllunio ar gyfer Rheoli Datblygu.

3. Er gwaethaf y manylion a gyflwynwyd, a chyn iddynt gael eu defnyddio ar y safle, bydd atodlen o ddeunyddiau a samplau i'w defnyddio wrth adeiladu'r ysgol a gymeradwywyd drwy hyn yn cael ei chyflwyno i'r Awdurdod Cynllunio Lleol a'i chymeradwyo'n ysgrifenedig gan yr Awdurdod Cynllunio Lleol. Bydd y datblygiad yn cael ei gwblhau yn unol â'r manylion cymeradwy cyn meddiant buddiol cyntaf yr ysgol.

Rheswm:

Er mwyn diogelu amwynderau gweledol lleol, fel sy'n ofynnol gan Bolisiâu SP1 (Cyflawni'r Strategaeth) a Pholisi MD2 (Dylunio Datblygiad Newydd) y Cynllun Datblygu Lleol.

4. Bydd y datblygiad a gymeradwywyd drwy hyn mewn perthynas â lefelau gwaelod a llawr arfaethedig yr ysgol a'r holl ardaloedd o wyneb caled allanol a'r cae chwaraeon yn unol â'r manylion a gymeradwywyd drwy hyn o dan luniau cyf. Yim Stn 00 Xx D C 110000 P09 Taflen Strategaeth Peirianeg 1, Yim Stn 00 Xx D C 110100 P09 Taflen Strategaeth Peirianeg 2 a Yim Stn 00 Xx D C 210100 P04 Adrannau Arfaethedig a Phresennol. Bydd y gwaith datblygu'n mynd rhagddo yn unol â'r manylion a gymeradwywyd.

Rheswm:

Er mwyn sicrhau bod amwynderau yr ardal yn cael eu diogelu, a sicrhau bod y datblygiad yn unol â thelerau Polisiau SP1 (Cyflawni'r Strategaeth) a MD2 (Dylunio Datblygiad Newydd) y Cynllun Datblygu Lleol.

5. Ni fydd unrhyw ddatblygiad na chlirio safle yn dechrau, nes bod Cynllun Rheoli Amgylchedd Adeiladu (CRhAA) wedi'i gyflwyno i'r Awdurdod Cynllunio Lleol a'i gymeradwyo'n ysgrifenedig ganddo. Bydd y CrhAA yn cynnwys y manylion canlynol:

- parcio cerbydau gweithredwyr safleoedd ac ymwelwyr;
- llwytho a dadlwytho peiriannau a deunyddiau;
- storio peiriannau, deunydd a ddefnyddir wrth adeiladu'r datblygiad;
- darparu a chynnal palisau diogelwch;
- cyfleusterau golchi olwynion;
- mesurau i reoli a lliniaru allyriadau llwch, mwg, llygryddion eraill a gludir yn yr awyr a bryntni wrth adeiladu;

- chynllun ar gyfer ailgylchu/gwaredu gwastraff sy'n deillio o waith dymchwel ac adeiladu.
- oriau adeiladu a danfoniadau;
- goleuadau;
- rheoli, rheolaeth a lliniaru sŵn a dirgryniad;
- rheoli a lliniaru arogleuon;
- ardaloedd neu fyndiau storio tanciau disel ac olew;
- sut mae'r datblygwr yn bwriadu cydymffurfio â'r Cynllun Adeiladwyr Ystyriol (www.considerateconstructorsscheme.org.uk) yn ystod y gwaith o adeiladu'r datblygiad; a
- system i reoli cwynion gan drigolion lleol a fydd yn cynnwys system adrodd ar gwynion.

Bydd cam adeiladu'r datblygiad yn cael ei wneud yn unol â'r CRhAA cymeradwy.

Rheswm:

Er mwyn sicrhau bod y gwaith o adeiladu'r datblygiad yn cael ei wneud mewn modd ystyriol o'r gymdogaeth ac er budd diogelu amwynderau a'r amgylchedd ac i sicrhau cydymffurfiaeth â thelerau Polisiâu SP1 (Cyflawni'r Strategaeth) a MD7 (Diogelu'r Amgylchedd) y Cynllun Datblygu Lleol.

6. Bydd cam adeiladu'r datblygiad yn cael ei gynnal yn llawn yn unol â'r Cynllun Rheoli Traffig Adeiladu cymeradwy a dderbyniwyd 16/02/2026.

Rheswm:

Er mwyn sicrhau nad yw'r ddarpariaeth parcio na diogelwch ar y briffordd yn yr ardal yn cael eu heffeithio'n andwyol gan y gwaith o adeiladu'r datblygiad ac i fodloni gofynion Polisiâu SP1 (Cyflawni'r Strategaeth) , MD2 (Dylunio Datblygiadau Newydd) ac MD7 (Diogelu'r Amgylchedd) y Cynllun Datblygu /Lleol.

7. Er gwaethaf y Cynllun Teithio a gyflwynwyd, cyn i'r defnydd buddiol cyntaf o'r ysgol gael ei gymeradwyo drwy hyn, bydd Cynllun Teithio diwygiedig yn cael ei gyflwyno i'r Awdurdod Cynllunio Lleol a'i gymeradwyo'n ysgrifenedig ganddo, a fydd yn cynnwys pecyn o fesurau wedi'u teilwra i anghenion y safle a phob defnyddiwr yn y dyfodol, sy'n anelu at ehangu dewisiadau teithio gan bob dull o drafndiaeth, annog trafndiaeth gynaliadwy a lleihau defnydd ceir diangen. Bydd y Cynllun Teithio yn cynnwys:

- Mapiau Rhwydwaith Teithio Llesol presennol ac yn y dyfodol yng nghyffiniau'r safle
- targed moddol beiciau/sgwteri uwch (o leiaf 10%,) a mesurau sy'n nodi sut y bydd hyn yn cael ei gyflawni
- y modd i gynyddu'r targed presennol o 14% o blant yn cerdded i'r ysgol
- ymrwymiad i ddarparu darpariaeth ychwanegol ar gyfer stondinau beiciau/sgwteri

- mesurau i annog ac addysgu newid moddol oddi wrth y car preifat i deithio i'r ysgol a lleihau gwrthdaro priffyrdd nid yn unig i staff ond i holl ddisgyblion a rhieni'r ysgol arfaethedig a manylion sut y bydd pob defnyddiwr yn cael ei ymgysylltu.
- ymrwymiad i gynnal arolwg teithio o holl ddefnyddwyr yr ysgol, i'w gynnal heb fod yn fwy na chwe mis ar ôl agor yr ysgol newydd a'r canlyniadau i'w darparu mewn adroddiad.
- adroddiadau i'w darparu i'r Cyngor yn flynyddol (am gyfnod o ddim llai na 5 mlynedd ar ôl meddiannaeth lawn yr ysgol) sy'n adolygu effeithiolrwydd y cynllun teithio a byddant yn cynnwys unrhyw ddiwygiadau angenrheidiol i'r cynllun teithio neu fesurau ychwanegol sydd i'w gweithredu,
- mesurau i sicrhau rheolaeth briodol ac effeithiol o ardaloedd gollwng cerddwyr, traffig cerbydau a bysiau/bysiau mini

Bydd y Cynllun Teithio wedi hynny yn cael ei weithredu yn unol â'r manylion a gymeradwywyd.

Rheswm:

Sicrhau bod y datblygiad yn cyd-fynd ag egwyddorion cynaliadwyedd, er budd diogelwch priffyrdd a cherddwyr a sicrhau bod y safle yn hygyrch i amrywiaeth o ddulliau trafniadaeth yn unol â Pholisïau SP1 (Cyflawni'r Strategaeth), MD1 (Lleoliad Datblygiad Newydd) a MD2 (Dylunio Datblygiadau Newydd) y Cynllun Datblygu Lleol.

8. Ni fydd yr ysgol a gymeradwywyd drwy hyn yn cael ei defnyddio yn fuddiol nes bod yr holl fynediad, maes parcio staff (gan gynnwys lleoedd i'r anabl ac EV), yr ardal gollwng bysiau, y manau parcio beiciau a sgwteri wedi'u gosod yn unol â'r cynllun a'r manylebau cymeradwy ac ar ôl hynny byddant ar gael ar gyfer eu defnyddiau priodol am byth.

Rheswm:

Er mwyn sicrhau bod darpariaeth parcio, gollwng disgyblion a chyfleusterau teithio llesol disgyblion boddhaol yn cael eu darparu ar y safle i wasanaethu'r datblygiad, ac i sicrhau cydymffurfiaeth â thelerau Polisiau SP1 (Cyflawni'r Strategaeth) ac MD2 (Dylunio Datblygiadau Newydd) y Cynllun Datblygu Lleol.

9. Er gwaethaf y cynlluniau a gyflwynwyd, bydd manylion cynllun caeau diwygiedig (a fydd yn cynnwys y caeau AChA diwygiedig a gyflwynir o dan Amod 10) yn cael eu cyflwyno i'r Awdurdod Cynllunio Lleol a'u cytuno yn ysgrifenedig gan yr Awdurdod Cynllunio Lleol. Bydd y dull amgáu cymeradwy yn cael ei gwblhau yn unol â'r manylion cymeradwy cyn y defnydd buddiol cyntaf o'r datblygiad.

Rheswm:

Er mwn diogelu amwynderau gweledol a phreswyl lleol, a sicrhau cydymffurfiaeth â Pholisïau SP1 (Cyflawni'r Strategaeth) a Pholisi MD2

(Dylunio Datblygiad Newydd) o'r Cynllun Datblygu Lleol.

10. Er gwaethaf y cynlluniau a'r manylion a gyflwynwyd, cyn y defnydd buddiol cyntaf o'r AChA, bydd cynllun diwygiedig o gaeau o amgylch yr AChA (a fydd yn cynnwys lloc ffens acwstig 2.8m o uchder o amgylch perimedr gogleddol, dwyreiniol a deheuol yr AChA ac yn cynnwys manylion mesurau lliniaru sy'n amsugno sioc ar gyfer paneli adlam) yn cael ei gyflwyno i'r Awdurdod Cynllunio Lleol a'i gytuno yn ysgrifenedig ganddo. Dim ond ar ôl codi'r cynllun caeau y cytunwyd arno y bydd yr AChA yn cael eu defnyddio ar ôl hynny, a fydd wedi hynny yn cael eu cadw bob amser cyhyd â bod yr AChA yn parhau i gael eu defnyddio.

Rheswm:

Er mwn diogelu amwynderau gweledol a phreswyl lleol, a sicrhau cydymffurfiaeth â Pholisïau SP1 (Cyflawni'r Strategaeth), Polisi MD2 (Dylunio Datblygiad Newydd) a MD7 (Diogelu Amgylcheddol) o'r Cynllun Datblygu Lleol.

11. Dim ond yn yr ysgol o fewn y safle y bydd yr AChA a gymeradwywyd drwy hyn yn cael eu defnyddio gan yr ysgol ac ni chaiff unrhyw drydydd partïon eu defnyddio nac yn cael eu defnyddio ar ôl 19:00 o'r gloch ar unrhyw ddiwrnod ysgol.

Rheswm:

Er mwyn sicrhau bod amwynderau meddianwyr preswyl cyfagos yn cael eu diogelu a sicrhau cydymffurfiaeth â thelerau Polisi MD2 (Dylunio Datblygiad Newydd) ac MD7 (Diogelu'r Amgylchedd) y Cynllun Datblygu Lleol.

12. Cyn y defnydd buddiol cyntaf o'r AChA, cynllun rheoli sŵn, a fydd yn nodi manylion sut mae'r sŵn a gynhyrchir o'r tu mewn i'r AChA gan yr holl ddefnyddwyr (plant, athrawon a hyfforddwyr ac ati). yn cael ei leihau, a chaiff ei gyflwyno i'r Awdurdod Cynllunio Lleol a'i gytuno arno'n ysgrifenedig gan yr Awdurdod Cynllunio Lleol. Ar ôl hynny, bydd yr AChA yn cael eu defnyddio yn unol â'r cynllun rheoli sŵn y cytunwyd arno.

Rheswm:

Er mwyn sicrhau bod amwynderau meddianwyr preswyl cyfagos yn cael eu diogelu a sicrhau cydymffurfiaeth â thelerau Polisi MD2 (Dylunio Datblygiad Newydd) ac MD7 (Diogelu'r Amgylchedd) y Cynllun Datblygu Lleol.

13. Os canfyddir halogiad ar unrhyw adeg wrth gyflawni'r datblygiad cymeradwy nad oedd wedi'i nodi o'r blaen, rhaid adrodd hyn yn ysgrifenedig o fewn 2 ddiwrnod i'r Awdurdod Cynllunio Lleol, rhaid i'r holl waith cysylltiedig ddod i ben, ac ni fydd unrhyw ddatblygu pellach yn digwydd nes bod cynllun i ddelio â'r halogiad a ganfuwyd wedi'i gyflwyno i'r Awdurdod Cynllunio Lleol a'i gymeradwyo ganddo'n ysgrifenedig. Rhaid cynnal ymchwiliad ac asesiad risg a lle bo angen unioni, rhaid paratoi cynllun unioni a chynllun cadarnhau a'u

cyflwyno i'r Awdurdod Cynllunio Lleol a rhaid iddynt gael eu cymeradwyo'n ysgrifenedig ganddo hefyd. Ar ôl cwblhau'r mesurau a nodwyd yn y cynllun unioni cymeradwy, rhaid cyflwyno adroddiad cadarnhau i'r Awdurdod Cynllunio Lleol a rhaid i hyn gael ei gymeradwyo'n ysgrifenedig ganddo. Bydd yr amserlen ar gyfer y camau uchod yn cael ei gytuno gyda'r Awdurdod Cynllunio Lleol o fewn pythefnos i ddarganfod unrhyw halogiad nas amheuwyd.

Rheswm:

Er mwyn sicrhau bod unrhyw risgiau annerbyniol o halogiad tir i ddefnyddwyr y tir yn y dyfodol, tir cyfagos, dyfroedd rheoledig, eiddo a systemau ecolegol yn cael eu lleihau, a sicrhau y gellir cyflawni'r datblygiad yn ddiogel heb risgiau annerbyniol i weithwyr, cymdogion a derbynyddion eraill oddi ar y safle yn unol â Pholisïau SP1 (Cyflawni'r Strategaeth) ac MD7 (Diogelu'r Amgylchedd) y Cynllun Datblygu Lleol.

14. Bydd unrhyw agregau (ond am garreg chwarel crai) neu agregau a ailgylchir a fewnforir yn cael ei asesu ar gyfer halogyddion cemegol neu arall posibl yn unol â chynllun archwilio a gaiff ei gyflwyno i'r Awdurdod Cynllunio Lleol a'i gymeradwyo'n ysgrifenedig ganddo cyn ei fewnforio. Dim ond deunydd a gymeradwywyd gan yr Awdurdod Cynllunio Lleol a gaiff ei fewnforio. Bydd yr holl fesurau a nodir yn y cynllun cymeradwy yn cael eu rhoi ar waith yn unol â Nodiadau Cyfarwyddyd Deunyddiau a Fewnforir Pollution Control. Yn amodol ar gymeradwyo'r uchod, rhaid cynnal samplau ar y deunydd a ddygir ar y safle datblygu i gadarnhau bod y pridd wedi'i fewnforio heb ei halogi, a gwneir hynny'n unol â'r cynllun a'r amserlen y cytunir arnynt yn ysgrifenedig gan yr Awdurdod Cynllunio Lleol.

Rheswm:

Er mwyn sicrhau nad oes niwed i ddiogelwch meddianwyr yn y dyfodol yn unol â Pholisïau SP1 (Cyflawni'r Strategaeth) ac MD7 (Diogelu'r Amgylchedd) y Cynllun Datblygu Lleol.

15. Bydd unrhyw uwchbridd (naturiol neu artiffisial) neu isbridd a fewnforir yn cael ei asesu ar gyfer halogyddion cemegol neu halogyddion posibl eraill yn unol â chynllun ymchwilio a fydd yn cael ei gyflwyno i'r Awdurdod Cynllunio Lleol a'i gymeradwyo'n ysgrifenedig cyn ei fewnforio. Dim ond deunydd a gymeradwywyd gan yr Awdurdod Cynllunio Lleol a gaiff ei fewnforio. Bydd yr holl fesurau a nodir yn y cynllun cymeradwy yn cael eu rhoi ar waith yn unol â Nodiadau Cyfarwyddyd Deunyddiau a Fewnforir Pollution Control. Yn amodol ar gymeradwyo'r uchod, rhaid cynnal samplau ar y deunydd a ddygir ar y safle datblygu i gadarnhau bod y pridd wedi'i fewnforio heb ei halogi, a gwneir hynny'n unol â'r cynllun a'r amserlen y cytunir arnynt yn ysgrifenedig gan yr Awdurdod Cynllunio Lleol.

Rheswm:

Er mwyn sicrhau nad oes niwed i ddiogelwch meddianwyr yn y dyfodol yn

unol â Pholisïau SP1 (Cyflawni'r Strategaeth) ac MD7 (Diogelu'r Amgylchedd) y Cynllun Datblygu Lleol.

16. Bydd unrhyw ddeunydd a adferwyd ar y safle, gan gynnwys priddoedd, agregau, deunyddiau wedi'u hailgylchu, yn cael ei asesu ar gyfer halogion cemegol neu halogion posibl eraill yn unol â chynllun samplu a fydd yn cael ei gyflwyno i'r Awdurdod Cynllunio Lleol a'i gymeradwyo'n ysgrifenedig cyn aildddefnyddio deunyddiau a adferwyd ar y safle. Dim ond deunydd sy'n bodloni gwerthoedd targed safle-benodol a gymeradwywyd gan yr Awdurdod Cynllunio Lleol fydd yn cael ei aildddefnyddio.

Rheswm:

Er mwyn sicrhau nad oes niwed i ddiogelwch meddianwyr yn y dyfodol yn unol â Pholisïau SP1 (Cyflawni'r Strategaeth) ac MD7 (Diogelu'r Amgylchedd) y Cynllun Datblygu Lleol.

17. Cyn y defnydd buddiol cyntaf o'r ysgol, bydd Cynllun Bioamrywiaeth yn cael ei gyflwyno i'r Awdurdod Cynllunio Lleol a'i chymeradwyo'n ysgrifenedig gan yr Awdurdod Cynllunio Lleol. Bydd y cynllun yn cynnwys mesurau ar gyfer gwella bioamrywiaeth gan gynnwys darparu blychau nythu adar. Bydd y cynllun yn cael ei weithredu fel y cytunwyd arno ac o fewn 6 mis ar ôl cwblhau'r holl welliannau bioamrywiaeth, cyflwynir ffotograffau sy'n dangos y mesurau yn y fan a'r lle i'r Awdurdod Cynllunio Lleol.

Rheswm:

Er budd ecoleg ac i sicrhau mesurau lliniaru, iawndal a gwella ar gyfer bioamrywiaeth ar y safle, yn unol â Rhan 1 Adran 6 Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016, Polisi Cynllunio Cymru (Chwefror 2024) a NCT 5 Cadwraeth Natur a Chynllunio (2009) a sicrhau cydymffurfiaeth â Pholisïau SP1 (Cyflawni'r Strategaeth) a MD9 (Hyrwyddo Bioamrywiaeth) y Cynllun Datblygu Lleol.

18. Cyn y defnydd buddiol cyntaf o'r ysgol, bydd Cynllun Tirlunio a Rheoli Ecolegol (CTRhE) yn cael ei gyflwyno i'r Awdurdod Cynllunio Lleol a'i chymeradwyo'n ysgrifenedig gan yr Awdurdod Cynllunio Lleol. Bydd y cynllun rheoli yn cynnwys ond heb fod yn gyfyngedig i: nodi'n glir yr amcanion ar gyfer tirlunio a rheoli ecolegol, cynnwys asesiad o nodweddion ecolegol a nodweddion tirwedd presennol, amlinellu arferion rheoli penodol ar gyfer cynefinoedd presennol a newydd eu creu, gan gynnwys manylion am blannu, hyd cynnal a chadw a monitro ac unrhyw gamau adfer ac adrodd angenrheidiol. Rhoddir y CTRhE fel y'i cymeradwywyd ar waith yn unol â'r manylion cymeradwy.

Rheswm:

Er budd ecoleg ac i sicrhau mesurau lliniaru, iawndal a gwella ar gyfer bioamrywiaeth ar y safle, yn unol â Rhan 1 Adran 6 Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016, Polisi Cynllunio Cymru (Chwefror 2024) a Tan 5 Cadwraeth

Natur a Chynllunio (2009) a sicrhau cydymffurfiaeth â Pholisïau SP1 (Cyflawni'r Strategaeth) a MD9 (Hyrwyddo Bioamrywiaeth) y Cynllun Datblygu Lleol.

19. Cyn adeiladu'r adeilad ysgol, bydd strategaeth oleuadau (i ddangos nad oes golau yn gollwng ar gynefinoedd gwerth uchel a gedwir a arfaethedig, megis y gwrychoedd a'r coed sydd i'w plannu), yn cael ei chyflwyno i'r Awdurdod Cynllunio Lleol a'i chytuno yn ysgrifenedig gan yr Awdurdod Cynllunio Lleol. Bydd y datblygiad yn mynd rhagddo yn unol â'r cynllun a gytunwyd.

Rheswm:

Er mwyn sicrhau mesurau ar gyfer cadw a gwella bioamrywiaeth yn unol â Rhan 1 Adran 6 Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016, Polisi Cynllunio Cymru (Chwefror 2024) a Tan 5 Cadwraeth Natur a Chynllunio (2009) a sicrhau cydymffurfiaeth â Pholisïau SP1 (Cyflawni'r Strategaeth) a MD9 (Hyrwyddo Bioamrywiaeth) y Cynllun Datblygu Lleol.

20. Bydd y cynllun draenio ar gyfer y safle yn sicrhau na chaniateir i unrhyw ddŵr wyneb a/neu ddraenio tir gysylltu'n uniongyrchol neu'n anuniongyrchol â'r rhwydwaith carthffosiaeth cyhoeddus.

Rheswm:

Er mwyn atal gorlwytho hydrolig y system garthffosiaeth gyhoeddus, llygredd yr amgylchedd ac i ddiogelu iechyd a diogelwch trigolion presennol a sicrhau nad yw'n niwed i'r amgylchedd a chydymffurfio â thelerau Polisiïau SP1 (Cyflawni'r Strategaeth) a MD1 (Lleoliad Datblygiad Newydd) y Cynllun Datblygu Lleol.

21. Cyn dechrau unrhyw waith o fewn y safle, cynhelir arolwg cyflwr priffyrdd cyn ei adeiladu ar draul y datblygwyr o ran ehangder y briffordd sy'n ffryntio'r safle ar hyd Dunraven Close (am y graddau y cytunir arnynt gan y Rheolwr Rhwydwaith Priffyrdd), a gynhaliwyd gan Ymgynghorydd Cynnal a Chadw Priffyrdd annibynnol cymwys a phrofiadol priodol â chymwysterau priffyrdd, y bydd y canlyniadau a'r canfyddiadau yn cael eu cyflwyno i'r Awdurdod Cynllunio Lleol a'u cymeradwyo'n ysgrifenedig ganddo.

Rheswm:

Er mwyn sicrhau diogelwch y cyhoedd ac ar y briffordd a sicrhau cydymffurfiaeth â thelerau Polisiïau SP1 (Cyflawni'r Strategaeth), MD2 (Dylunio Datblygiad Newydd) ac MD7 (Diogelu'r Amgylchedd) y Cynllun Datblygu Lleol.

22. Cynhelir ail arolwg cyflwr ar draul y datblygwyr o'r graddau y cytunwyd arnynt ar ôl cwblhau'r safle, neu ar adeg y mae'r Awdurdod Priffyrdd yn cyfarwyddo (os yn gynharach), y bydd ei ganlyniadau a'i ganfyddiadau yn cael eu cyflwyno i'r Awdurdod Cynllunio Lleol a'u cymeradwyo'n ysgrifenedig ganddo. Bydd unrhyw ddiffygion a nodwyd gyda'r ail arolwg cyflwr y mae'r awdurdod

priffyrdd yn ystyried eu bod yn angenrheidiol o ganlyniad uniongyrchol i'r gwaith yn cael eu cywiro ar draul y datblygwyr ar amserlen y cytunir arno a'i nodi gan yr ymgeisydd.

Rheswm:

Er mwyn sicrhau y gellir nodi unrhyw ddifrod i'r briffordd wedi'i wneud drwy gydol y broses ddatblygu ac yna ei unioni ar draul y datblygwr yn unol â Pholisi MD2 (Dylunio Datblygiadau Newydd) y Cynllun Datblygu Lleol.

23. Bydd yr holl blannu, hadu neu dywarchen a gynhwysir yn y manylion cymeradwy o dirlunio (YIM-HLM-00-00-D-L-450011 P04 Cynllun Strategaeth Tirlunio Meddal - Cynllunio a YIM-HLM-00-00-L-L-453010 P03 Atodlen Plannu) yn cael ei wneud yn y tymhorau plannu a hadu cyntaf ar ôl meddiannu'r ysgol ac unrhyw goed neu blanhigion sydd, o fewn cyfnod o 5 mlynedd ar ôl cwblhau'r datblygiad, yn marw, yn cael eu tynnu neu gael eu difrodi'n ddifrifol neu'n sâl yn cael eu disodli yn y tymor plannu nesaf gydag eraill o faint a rhywogaethau tebyg.

Rheswm:

Er mwyn sicrhau bod yr ardal wedi'i thirweddu'n cael ei chynnal a chadw'n foddhaol i sicrhau cydymffurfiaeth â Pholisïau SP1 (Cyflawni'r Strategaeth), SP10 (Amgylchedd Adeiledig a Naturiol), a MD2 (Dylunio Datblygiadau Newydd) y Cynllun Datblygu Lleol.

Rheswm dros y penderfyniad

Mae'r penderfyniad i argymhell caniatâd cynllunio wedi'i wneud yn unol ag Adran 38 o Ddeddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol 2004, sy'n ei gwneud yn ofynnol, wrth benderfynu ar gais cynllunio, i'r penderfyniad fod yn unol â'r Cynllun Datblygu oni bai bod ystyriaethau perthnasol yn nodi fel arall. Mae'r Cynllun Datblygu ar gyfer yr ardal yn cynnwys Cynllun Datblygu Lleol Mabwysiedig Bro Morgannwg ar gyfer 2011-2026 a Chymru'r Dyfodol – Cynllun Cenedlaethol 2040.

Gan ystyried Polisiâu, SP1- Cyflawni'r Strategaeth, SP9 – Mwynau, SP10 – Amgylchedd Adeiledig a Naturiol, MG2 - Dyraniadau Tai, MG6 - Darparu Cyfleusterau Addysgol, MG20 - Safleoedd a Rhywogaethau a Warchodir yn Genedlaethol, MG22 - Datblygu Mewn Ardaloedd Diogelu Mwynau, MD1 - Lleoliad y Datblygiad Newydd, MD2 - Dylunio Datblygiad Newydd, MD5 - Datblygu o fewn Ffiniau Anheddiad, MD7 - Diogelu'r Amgylchedd, MD8 - Amgylchedd Hanesyddol, MD9 - Hyrwyddo Bioamrywiaeth Bro Morgannwg Cynllun Datblygu Mabwysiadu 2011-2026, PPW 12, Cymru'r Dyfodol, NCTau 5, 6, 11, 12, 25, 16, 18 a 24 ac CCA y Cyngor ar Bioamrywiaeth a Datblygu, Safonau Parcio a Chynlluniau Teithio, y cynnig ystyrir bod y cynnig yn dderbyniol, yn amodol ar amodau, gan ystyried dyluniad, graddfa ac effaith weledol yr adeiladau, effaith ar amwynder preswyl a phreifatwydd, parcio, diogelwch priffyrdd, traffig, sŵn, draenio, ecoleg a bydd yn sicrhau gwelliannau seilwaith gwyrdd.

O ystyried dyletswyddau'r Cyngor o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010, nid oes gan y datblygiad arfaethedig unrhyw oblygiadau sylweddol ar gyfer, neu effaith ar, unigolion sy'n rhannu nodwedd warchoddedig.

Ystyrir bod y penderfyniad yn cydymffurfio ag amcanion lles y Cyngor a'r egwyddor datblygu cynaliadwy yn unol â gofynion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.

Ystyriwyd y dogfennau polisi morol priodol wrth benderfynu ar y cais hwn yn unol ag Adran 59 Deddf y Môr a Mynediad i'r Arfordir 2009.